**Jack Sargeant AS/MS**
**Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol**
**Minister for Culture, Skills and Social Partnership**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref JS/10689/24

7 Chwefror 2025

Annwyl Mike,

Diolch ichi am eich llythyr 31 Ionawr ar ran y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad ynghylch y Bil Hawliau Cyflogaeth a chydsyniad deddfwriaethol.

Rwy'n falch o roi rhagor o wybodaeth am y Bil i lywio ystyriaeth y Pwyllgor o'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol a'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol a osodais ar 5 a 19 Rhagfyr yn y drefn honno.

Mae cynnwys Comisiwn y Senedd yng nghwmpas cymal 26 yn deillio o'i restru yn Rhan 1 o Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (o dan y pennawd "Cyrff Seneddol a Datganoledig"). Mae Corff Corfforaethol Seneddol yr Alban o fewn cwmpas yn yr un modd. At ddibenion Deddf 2010 a deddfwriaeth gysylltiedig, mae'r cyrff seneddol hyn yn wahanol i awdurdodau cyhoeddus datganoledig eraill Cymru a'r Alban.

Mae'r gofyniad bod un o Weinidogion y Goron yn ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan adran 78A newydd yn gymwys dim ond pan fo'r rheoliadau'n gymwys i gorff a restrir yn Rhan 4 o Atodlen 19 i Ddeddf 2010. Nid yw'r gofyniad i ymgynghori yn gymwys mewn perthynas â rheoliadau sy'n gymwys i Gomisiwn y Senedd am ei fod wedi'i restru yn Rhan 1 o'r Atodlen, nid Rhan 4.

O ran cymalau 49, 52 a 54, mae'r darpariaethau hyn yn ystyried materion datganoledig yn unol â Rheol Sefydlog 29. Felly, aseswyd bod angen cydsyniad y Senedd.

O ran cymal 25, bydd rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 83C newydd Deddf Caffael 2023 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Senedd (yn unol â'r diwygiadau i adran 122(10) o Ddeddf 2023).

Sylwch bod rhifau'r cymalau a ddefnyddir uchod yn cyfateb i'r rhifau yn y Bil pan y'i cyflwynwyd, er cysondeb â'ch llythyr a hefyd y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol a'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol. Mae'r fersiwn o'r Bil a gyhoeddwyd ar 27

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Jack.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Jack.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ionawr yn dilyn gwelliannau yng nghyfnod craffu'r Pwyllgor yn defnyddio rhifau wedi'i ddiweddaru.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd a Chadeirydd Comisiwn y Senedd, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a Chadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir,



**Jack Sargeant AS/MS**
Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol
Minister for Culture, Skills and Social Partnership